Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-928
Ein cyf/Our ref LG/07371/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

19 Tachwedd 2019

Annwyl Janet

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Tachwedd am y ddeiseb ynghylch Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

Cyhoeddon ni ein Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf ar 12 Tachwedd, yn nodi polisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'n moroedd yn gynaliadwy am yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun Morol yn ymwneud â swyddogaethau datganoledig a swyddogaethau sydd wedi'u cadw.

Defnyddio technoleg adnewyddadwy forol yw un o flaenoriaethau strategol y Cynllun Morol Cenedlaethol. Mae ynni adnewyddadwy'n para'n rhan hollbwysig o'n gweledigaeth ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy i Gymru. I sicrhau ynni carbon isel fforddiadwy, rhaid wrth gymysgedd o dechnolegau o fathau a maint gwahanol, o rai cymunedol i brosiectau mawr a byddwn yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i gael hyd i ffyrdd i wneud Cymru'n wlad ynni carbon isel.

Ers yr ymgynghoriad y llynedd ar ein Cynllun Morol Cenedlaethol drafft, mae fy swyddogion wedi adolygu'r cynllun i adlewyrchu'n polisi o osgoi codi rhagor o danwyddau ffosil ar dir ac ym mor Cymru, lle bo Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am drwyddedu. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i newid i system ynni carbon isel, gyda'r nod tymor hir o dynnu tanwyddau ffosil o'r cymysgedd ynni tra'n cadw'r effeithiau economaidd mor fach â phosib a rhoi eglurder i fuddsoddwyr gan eu hannog i fuddsoddi mewn dewisiadau carbon isel.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r cyfrifoldeb am roi trwyddedau ar gyfer chwilio a chodi petrolewm yn swyddogaeth gadw, gydag Awdurdod Olew a Nwy'r DU yn gyfrifol am roi trwyddedau a'r Rheoleiddydd Petrolewm Alldraeth dros yr Amgylchedd a Datgomisiynu yn gyfrifol am reoleiddio amgylcheddol.

Yn fy Natganiad Llafar i'r Senedd, dywedais yn glir bod meysydd ym mholisi Llywodraeth Cymru a pholisi Llywodraeth y DU yn gwahaniaethu - ac un o'r rheini yw codi olew a nwy. Polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi codi a defnyddio rhagor o danwyddau ffosil ym mhob maes rydym yn gyfrifol amdano. Rydym yn gwrthwynebu'n chwyrn codi unrhyw danwyddau ffosil yn y moroedd o amgylch Cymru.

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru felly yn cynnwys cymal sy'n nodi bod angen i unrhyw gynnig i godi olew a nwy yn yr ardal forol sydd ag angen seilwaith ar dir arno fod yn gydnaws â'n nod datgarboneiddio, gyda'r bwriad o ddefnyddio swyddogaethau polisi Llywodraeth Cymru i'r graddau eithaf posibl i atal codi tanwyddau ffosil ym moroedd Cymru.

Rwy'n ymwybodol o'r ddeiseb ac rwyf wedi derbyn llythyr oddi wrth Susanna Kenyon am hyn.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs